

# Prosiect Hydrogen Gwyrdd HyBont.

H<sub>2</sub>

hydrogen H<sub>2</sub>

zero emission

**Marubeni**  
Europower

Mae **Marubeni Europower** yn cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu cyfleuster cynhyrchu, storio ac ail-lenwi hydrogen gwyrdd ar dir yn Ystad Ddiwydiannol Brynmenyn, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cynigion yn cynnwys fferm solar ym Mryncethin gerllaw, a fydd yn darparu ynni adnewyddadwy i helpu i bweru'r cynhyrchiad hydrogen.



©2022 Google Earth

## Pam mae angen hydrogen gwyrdd arnom?

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, bydd gan hydrogen gwyrdd ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i leihau ein hól troed carbon. Mae hyn yn cynnwys defnyddiau fel tanwydd carbon isel ar gyfer trafndiaeth, gwresogi adeiladau yn ogystal ag amnewid nwy naturiol o fewn prosesau diwydiannol.

Mae prosiectau hydrogen gwyrdd bellach yn nodwedd mewn llawer o ddinasoedd ar draws y byd ac mae llywodraeth y DU yn bwriadu cynhyrchu 10 gigawat (GW) o hydrogen gwyrdd erbyn 2030.

Mae fflydoedd o gerbydau hydrogen (fel bysiau) eisoes yn gweithredu mewn dinasoedd fel Aberdeen, Birmingham a Llundain.



## Beth yw hydrogen gwyrdd?

Mae hydrogen yn elfen a geir mewn llawer o gyfansoddion fel dŵr. Gellir ei ddefnyddio mewn celloedd tanwydd hydrogen i bweru cerbydau fel bysiau.

Gellir cynhyrchu hydrogen gan ddefnyddio dulliau adnewyddadwy ac anadnewyddadwy. Mae cynigion Marubeni HyBont yn defnyddio trydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy - o ynni gwynt lleol oddi ar y safle (drwy'r grid) a phaneli solar sydd wedi'u lleoli ym Mryncethin gerllaw - i gynhyrchu hydrogen gan ddefnyddio electrolysis.

Yna gellir defnyddio'r hydrogen i danio cerbydau a gwresogi adeiladau lleol. Mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd trwy ddarparu ffynhonnell ynni gludadwy nad yw'n cael ei chynhyrchu gan ddefnyddio tanwyddau ffosil. Mae hefyd yn lleihau llygredd aer gan mai dŵr yw'r unig fygdarth gwacáu o gerbydau tanwydd hydrogen.

## Pam fod y lleoliad hwn wedi'i ddewis?

Mae safle Brynmenyn (ar gyfer y cyfleuster hydrogen) o fewn yr ystâd ddiwydiannol ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i nodi fel safle addas i'w ddatblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae cludo hydrogen yn ddrud ac felly mae ei gynhyrchu'n agos at y man lle caiff ei ddefnyddio yn helpu i leihau'r gost i ddefnyddwyr terfynol.

Mae'n agos at rwydwaith gwres arfaethedig Ynysawadre (ysgolion a chyfleusterau hamdden), a allai fod yn gwsmer sylweddol i'r hydrogen gwyrdd, gan ddarparu buddion lleol yn uniongyrchol.

Mae'r safle hefyd mewn lleoliad da ar gyfer defnyddwyr lleol eraill megis ar gyfer fflyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â bysiau cyhoeddus posibl, wrth i sefydliadau geisio trosi eu fflydoedd trwm yn gelloedd tanwydd hydrogen gwyrdd.



Dewiswyd safle Brynmenyn ar gyfer y fferm solar oherwydd ei fod yn agos, gan alluogi cysylltiad uniongyrchol â'r electrolyser.

## A yw'n ddiogel?

Nid yw hydrogen yn wenwynig, sy'n golygu nad oes ganddo lawer o bryderon diogelwch ac amgylcheddol petrol, disel neu nwy naturiol confensiynol.

Bydd diogelwch yn hollbwysig o ran dyluniad a gweithrediad y cyfleuster cynhyrchu hydrogen yn unol ag ystod o reoliadau llym.

Mae hydrogen wedi cael ei ddefnyddio yn y DU at amrywiaeth o ddibenion ers degawdau, ac mae gan y DU hanes cadarn o ddsbarthu a storio nwyon hylosgi yn ddiogel.



Golygfa o'r awyr o'r cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd arfaethedig o'r de. Safle datblygu arfaethedig wedi'i osod o fewn y llain goed bresennol a gedwir ar gyfer sgrinio gweledol. Ffordd fynediad newydd o Squire Drive yn arwain at fynedfa ddiogel i'r safle a ffordd ymyl fewnol gyda gorsafodd ail-lenwi hydrogen o amgylch y perimedr.



# Dweud eich dweud.

Rydym ar hyn o bryd yn cynnal ein proses ymgynghori cyn ymgeisio ac rydym am glywed eich sylwadau cyn i ni gwblhau ein cynlluniau cyn eu cyflwyno i Gyngor Sir Bwrdeistrefol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cymerwch amser i roi adborth yn y ffyrdd canlynol:

## Digwyddiadau

Siaradwch â ni neu cwblhewch y ffurflen sydd ar gael yn y digwyddiadau galw heibio cyhoeddus **(13 a 14 Rhagfyr)**

## Rhadbost

**Rhadbost YMGYNGHORYDD GRASSHOPPER**  
(nid oes angen stamp na chyfeiriad pellach)

## Gwefan

Ewch i'r adran **Eich Barn** ar ein gwefan

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn dydd  
**Gwener 6 Ionawr 2023**

## Camau nesaf

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd y tîm yn adolygu'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn cynnal ymchwiliadau safle pellach, gan gynnwys cyflwr y tir, effaith weledol ac ecoleg. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad a chanlyniadau'r ymchwiliadau hyn yn helpu i lywio'r cynigion terfynol.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gynnar y flwyddyn nesaf. Bydd ymgynghoriad pellach yn digwydd bryd hynny.

Yn amodol ar roi caniatâd cynllunio, bydd yn cymryd 22 mis i'w adeiladu, a gallai fod yn cynhyrchu hydrogen erbyn hydref 2025.

Gallwch weld yr holl wybodaeth gefndir a chynlluniau ar gyfer y prosiect ar-lein (gan gynnwys y cais cynllunio drafft llawn) drwy fynd i: [www.hybont.co.uk](http://www.hybont.co.uk)



## Amdanom ni

Mae **Marubeni Europower** yn fuddsoddwr blaenllaw mewn ynni adnewyddadwy, gan ddatblygu a gweithredu prosiectau pŵer ledled y byd.

Gan weithredu yn Ewrop ers dros 50 mlynedd, rydym wedi buddsoddi mwy na £1.5bn mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ac yn cyflogi dros 2,000 o bobl yn y DU.

Mae Marubeni wedi ymrwmo i gyfrannu at y trawsnewid tuag at gymdeithas garbon isel trwy gyflawni cymysgedd o brosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys hydrogen.

**Marubeni**  
Europower